# Pigion o Silff Lyfrau
# HUGH ROBERTS (1821-85)

GANWYD Hugh Roberts yn y Trawscoed, fferm yn nhopie cwm Pennantlliw, Llanuwchllyn. Ymysg ei lyfrau roedd un am drin anifeiliaid, sef *Y Cyfarwyddyd Profedig i bob Perchen Anifeiliaid* gan John Edwards, Plas Coch, Llanychan, Dyffryn Clwyd, a gyhoeddwyd yn 1816 er mai argraffiad 1837 oedd ganddo ef. Yn gynwysedig mae sylwadau gan E. a J. Edwards, Plas-yng-Nghaerwys, y golygydd, a rybuddiodd y wlad o'r hen arferiad niweidiol o roi cwrw a gwirod i anifeiliaid sâl:

> *'. . . waeth iddo gymeryd yr ordd a'i daro yn ei dalcen, oherwydd bod ennynfa boeth wedi ei gymeryd yn ei ranau tumewnol, a rhwygo ei gorph.'*

Y llyfrau mwyaf cyffredin o ddigon ar y silff oedd rhai diwinyddol yr oes. Melynwyd gan henaint gopi Nicklas Humphreys o *Rhyfel y Saint* (Gurnal, 1658) a argraffwyd yn yr Wyddgrug yn 1796 tros T. Jones y cyfieithydd. Cyfieithodd T. Jones *Diwygwyr, Merthyron a Chyffeswyr Eglwys Loegr* hefyd ond a argraffwyd yn Ninbych yn 1813 gan Thomas Gee. Y tu mewn i'r clawr ysgrifennwyd y geiriau, *'Griffith Evans a laddwyd Chwefror 28, 1820 yn 78 mlwydd oed'*.

Yn yr Wyddgrug y cyhoeddwyd yr *Holwyddoreg Feraf.* Gwaith A. S. Paterson, A.M. a fu farw yn bump ar hugain oed ac a gyfieithwyd gan Owen Jones, Manchester, yn 1856. Llofnod ei ewythr, R. Roberts, Cwmtylo, 1828, a welir yn esboniad y Parch. Simon Lloyd, B.A., gynt o Goleg yr Iesu, Rhydychen. Argraffwyd y gyfrol gan Robert Saunderson yn y Bala yn yr un flwyddyn. Mae'n amlwg i'r llyfr fynd ar fenthyg, oherwydd y tu mewn i'r clawr ceir englyn wedi'i ysgrifennu:

*I'th berchen addien boed iddo — hir oes*
*A'r Iesu dderbynio*
*Ei enaid pan wahano*
*Y corff gwan a'i anian o.*

*I.P.*

*'In retourn*(sic) *this Book to Robt. Roberts his. Gwener July 23 1841.*

Yno roedd *Y Drysorfa* gyda'i amrywiaeth am 1851, hefyd *Y Geiniogwerth* am yr un flwyddyn; hwy yn cyhoeddi y byddai'n rhaid newid yr enw gan fod y pris yn codi i 2g; cynigiwyd gwobr o £2 am draethawd 'Yn erbyn drygioni'r oes'. Hefyd traethodau Lewis Edwards ar 'Cymru Lân'. Meddai yntau, 'Does neb yn sôn am *clean England*'. Defnydd llawenydd iddo oedd gweld mewn cartrefi ddarlun ar y pared, blodau yn y ffenestr neu ardd fach o flaen y tŷ.

*Gwaith Alex Keith*, a droswyd yn Llundain gan Blackie a'i Fab; *Gweithiau Pantycelyn*, dan olygyddiaeth Kilsby Jones, 1867; *Meddyliau am Grefydd* a *Chofiaeth Thomas Charles* — a ddywedodd amdano'i hun,

> *'Trwy fod fy nhymer a'm tueddiad o naturiaeth yn dyner a hynaws yr oedd pawb o'm perthnasau yn fy ngharu ac yr oedd hyn er mawr gynorthwy i mi wrth fynd drwy amryw anawsterau.'*

Ganwyd unig blentyn Hugh Roberts yn 1858. Roedd ef wedi symud i lawr y cwm i Fryngwyn, wedi iddo briodi â Catherine Pierce o Lanrwst. Daethant i gydnabyddiaeth â'i gilydd trwy ei gyfaill 'Yr Hen Barch' Rhobert Williams o'r Wern Ddu (a gafodd gofiant gan Syr Owen Edwards). Erbyn i'r wyrion gyrraedd, cyn diwedd y ganrif, gwelir ôl traul ar *Taith y Pererin* a'i glawr o liain coch; a darnau yn unig o *Cymru Fu* a *Twm Shon Catti*. Tybir i'r hen bererin o ffarmwr uniongred fu'n cadw cyfrifon ei gapel ynghyd â chasglu arian at ei godi ac at adeiladu yr ysgol Frutanaidd a chasglu Treth y Tir am gyfnod gael pleser o ddarllen *Cydymaith Dyddanus, sef Byr Hanesion Hynod,* wedi'u dethol gan R. Jones, Llanllyfni, gan fod erbyn hyn ôl bodio mawr arno.

CYDYMAITH DYDDANUS:

YN CYNWYS

BYR-HANESION HYNOD

AM

DDYODDEFIADAU A GWAREDIGAETHAU POBL DDUW,

BUDDUGOLIAETHAU Y GWIRIONEDD,

A'I DDYLANWAD AR

GALONAU A BUCHEDDAU Y CYMERIADAU GWAETHAF;

HANES

PREGETHWYR AC AWDWYR ENWOG,

A CHASGLIAD HELAETH O

DDYWEDIADAU AC ATEBION PERT A THARAWIADOL.

WEDI EU DETHOL GAN

R. JONES, LLANLLYFNI.

WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, HOPE STREET.

Dyma rai pigion o'r gyfrol ddifyr hon:

Cybydd yn ddiweddar mewn dawnsfa a chlywsai foneddwr yn adrodd am hen foneddiges gyfoethog, 'Bu farw ddoe yn 89 oed'.

'Y fath pity,' meddai'r cybydd, 'buasai yn fatch iawn i rywun ddeuddydd yn flaenorol.'

* * *

'Pa beth sydd gennych i'w ddweud dros eich ymddygiad?' meddai Ustus wrth un a gyhuddid am fedd-dod.

'Dim Syr, ond syched parhaus.'

* * *

Twm o'r Nant ychydig cyn ei farw yn Tremadog amser agor y capel yn cael ei holi gan Mr Charles o'r Bala ar sut roedd rhyngddo a'r personiaid. 'Gofalwch chwi am y defaid Mr Charles, gofala innau am y cŵn,' oedd yr ateb.

* * *

Gŵr claf yn esbonio'i boenau i'r enwog Dr Wheelan, symiodd y cwbl i fyny fel hyn, 'Doctor, yr ydych wedi fy mhoeni gyda'ch pelenni a'ch cyffuriau di-les, ond nid ydych wedi cyffwrdd y gwir afiechyd, dymunaf arnoch daro ar achos fy nolur os o fewn eich gallu.'

'Mi a wnaf hynny,' cododd y meddyg ei ffon, tarawodd y botel gin yn chwilfriw.

* * *

Yr oedd Edward Irving, ar ôl bod yn dra phoblogaidd, yn niwedd ei oes yn coleddu y mympwyon mwyaf hynod, amryw yn ceisio ei efelychu. Un creadur gwallgof o Bristol alwai ei hun yn 'Angel yr Eglwys' aeth at Mr Jay i Bath i'w lyfrgell.

'Myfi yw Angel yr Eglwys Irvinaidd,' meddai.

'Tynnwch eich cot,' medd Jay a theimlo yn fanwl o gylch ei ysgwyddau.

Gofynnodd yr angel yn gynhyrfus beth oedd yn ei wneud.

'Edrych am eich adennydd,' meddai Jay yn bur dawel.

* * *

Garston aeth i'w areithfa, a safodd gan grafu ei ben am funud neu ddau, yna ar ôl colli y cwbwl efe a gyfarchodd y gynulleidfa yn dawel: 'Ah, fy nghyfeillion, yr ydych wedi colli pregeth gampus'.

* * *

Dywedir am y gweinidog enwog W. B. Cadwgan yn talu ymweliad â boneddiges urddasol, yr hon a dreuliodd gryn amser i wneud holiadur lawer ynghylch ei enedigaeth, ei deulu, ei berthynasau a phethau cyffelyb. 'Fy anwyl Madam,' meddai Mr C. 'Yr wyf yn rhyfeddu eich bod yn treulio cymaint o amser gyda phethau mor ddi-fudd. Myfi a alwais i'ch gweld er mwyn ymddyddan â chwi am bethau tragwyddoldeb.'

Dyna ichi gipolwg ar rai o gyfrolau gwerinwr tlawd ganrif yn ôl ac yntau'n werinwr heb dderbyn addysg ffurfiol o gwbl heblaw yn yr Ysgol Sul. Eto roedd yn addysgiedig.

GWEN ROBERTS
Llanuwchllyn


## AR WERTH

***Geiriadur Prifysgol Cymru*** — rhan I i IV a VII i XV y cyfan am £15 + £5 cludiant. **Peter Riley (Books) 27 Sturton Street, Cambridge CB1 2QG. Ffôn (01223) 576422.**

* * * *

***Y Cyfarwyddwr,*** cylchgrawn misol Ysgolion Sul Cymru, cyf. 1-9, 1921-30; ***Yr Efrydydd,*** cylchgrawn chwarterol Mudiad Cristionogol y Myfyrwyr, cyf. 1-5, 1924-29; llawer o rifynnau cyfres Llyfrau'r Dryw; J. Hugh Edwards, ***David Lloyd George,*** cyf. 1 a 2 (1930). **Cysyllter ag E. L. James (01970) 828577.**